

Rhif	Cystadleuaeth	Manylion	Gwobr
1	Limrig. I gynnwys y llinell: <i>Wrth fyned am dro lawr i'r afon</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
2	Englyn Testun: <i>Mynydd</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
3	Telyneg Testun: <i>Bwriad</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	£20
4	Cystadleuaeth y Gadair Cerdd neu gasgliad o gerddi caeth neu rydd ar y testun: <i>Ffenest</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	Cadair a £50
5	Llên Meicro Darn o Lên Meicro heb fod dros 500 gair. Testun: <i>Adduned</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
6	Adolygiad Adolygiad heb fod dros 1,000 o eiriau o unrhyw gyfrol Gymraeg.	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
7	Cystadleuaeth Rhyddiaith. Darn o ryddiaith dros 500 gair ar y testun: <i>Aur</i>	Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
8	Barddoniaeth Y Dysgwyr Cerdd ar y testun: <i>Nos</i>	Cystadleuaeth i ddysgwyr o bob oedran.	£10

Rhif	Cystadleuaeth	Manylion	Gwobr
9	Rhyddiaith Y Dysgwyr Darn o ryddiaith ar y testun: <i>Seren</i>	Cystadleuaeth i ddysgwyr o bob oedran.	£10
10	Barddoniaeth Bl. 2-4 Cerdd ar y testun: <i>Lliwiau</i>		£5
11	Barddoniaeth Bl. 5 a 6 Cerdd ar y testun: <i>Arwr / Arwres</i>		£5
12	Barddoniaeth Bl. 7-9. Cerdd ar y testun: <i>Lleisiau</i>		£10
13	Barddoniaeth Bl. 10-13 Cerdd ar y testun: <i>Ffrind / Cyfaill</i>		£10
14	Rhyddiaith Bl. 2-4 Darn o ryddiaith ar y testun: <i>Heulwen</i>		£5
15	Rhyddiaith Bl. 5-6 Darn o ryddiaith ar y testun: <i>Môr</i>		£5
16	Ryddiaith Bl. 7-9 Darn o ryddiaith ar y testun: <i>Teulu</i>		£10
17	Rhyddiaith Bl. 10-13 Darn o ryddiaith ar y testun: <i>Sibrydion</i>		£10

Rhif	Cystadleuaeth	Manylion	Gwobr
18	Tlws yr ifanc. Dyfernir y tlws am waith llenyddol. Gall fod yn gerdd gaeth neu rydd neu'n ddarn o ryddiaith ar y testun <i>Cylchoedd</i> .	Yn agored i unigolion 25 oed ac iau	£50 a thlws
19	Ffotograffiaeth oedran cynradd Testun: <i>Golau</i>	Un ffotograff	£5
20	Ffotograffiaeth oedran uwchradd Testun: <i>Golau</i>	Un ffotograff	£10
21	Ffotograffiaeth agored Testun: <i>Golau</i>	Un ffotograff - cystadleuaeth yn agored i bawb	£15

1. Rhaid i geisiadau cystadlaethau gwaith cartref gyrraedd erbyn **6pm ddydd Gwener 27 Tachwedd 2020.**
2. Y beirniaid ar gyfer y cystadlaethau llenyddol fydd Gruffudd Owen a Ceri Elen.
3. Y beirniad ar gyfer y cystadlaethau ffotograffiaeth fydd Sioned Birchall.
4. Byddai'n well gennym dderbyn ceisiadau dros e-bost at cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru. Ond gallwch hefyd eu hanfon drwy'r post at:
Eisteddfod Caerdydd d/o Shân Crofft, 17 Rennie Street, Riverside, Caerdydd, CF11 6EG
5. Ar gyfer cystadlaethau ysgrifenedig:
 - a. dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol ar frig eich ymgais, p'un a eich bod yn anfon y wybodaeth dros e-bost neu drwy'r post:
 - i. eich llysenw
 - ii. rhif y gystadleuaeth a theitl y gystadleuaeth
 - iii. nifer y geiriau neu'r llinellau os yw'n berthnasol
 - b. yn y prif e-bost, neu ar ddarn papur ar wahân os ydych yn anfon eich ymgais drwy'r post, dylech gynnwys:
 - i. eich enw
 - ii. manylion pa gystadlaethau yr ydych wedi ymgeisio ynddynt, gan gynnwys y llysenwau yr ydych wedi eu defnyddio
 - iii. manylion cyswllt yr ymgeisydd – rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
 - iv. yn achos cystadlaethau i blant oed uwchradd, cynradd a thlws yr ifanc, dylid cynnwys oed yr ymgeisydd

6. Ar gyfer cystadlaethau ffotograffiaeth:
 - a. dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol ar gefn eich ymgais os ydych yn danfon ymgais drwy'r post, neu ar yr e-bost os ydych yn ei anfon yn electronig:
 - i. eich llysenw
 - ii. rhif y gystadleuaeth a theitl y gystadleuaeth
 - iii. nifer y geiriau neu'r llinellau os yw'n berthnasol
 - b. yn y prif e-bost, neu ar ddarn papur ar wahân os ydych yn anfon eich ymgais drwy'r post, dylech gynnwys:
 - i. eich enw
 - ii. manylion pa gystadlaethau yr ydych wedi ymgeisio ynddynt, gan gynnwys y llysenwau yr ydych wedi eu defnyddio
 - iii. manylion cyswllt yr ymgeisydd – rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
 - iv. yn achos cystadlaethau i blant oed uwchradd a chynradd dylid cynnwys oed yr ymgeisydd
 - c. nodwch mai dim ond un ffotograff y dylid ei gyflwyno ar gyfer pob ymgais, ond mae croeso i chi ymgeisio fwy nag unwaith
7. Ni fydd manylion yr ymgeisydd yn cael eu rhannu gyda'r beirniad.
8. Mae croeso i athrawon anfon ceisiadau disgyblion i gyd gyda'i gilydd. Os fyddwch yn bwriadu gwneud hyn, cysylltwch â ni ymlaen llaw. Bydd angen i chi sicrhau bod y manylion cywir a pherthnasol gyda phob ymgais yn unol â rheolau 5 a 6 uchod.
9. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.
10. Gellir gwneud cais i gael beirniadaeth lawn drwy e-bostio cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru.